

Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy

Mawrth 2012

Dydd Gŵyl Dewi



Mae'r enw Dewi Sant, neu 'San David', yn un cyfarwydd i nifer ohonom ni ym Mhatagonia. Mae Canolfan Dewi Sant yng Nghomodoro, ac Eglwys Dewi Sant yn Nolaafon, heb anghofio Neuadd Dewi Sant yn Nhrelew lle mae Cymdeithas Dewi Sant yn cynnal ei chyfarfodydd. Ond tybed faint ohonom ni sy'n gwybod pwy oedd Dewi Sant mewn gwirionedd? A pham ein bod ni'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y cyntaf o Fawrth?

Dewi Sant yw nawddsant Cymru. Cafodd ei eni yn ardal Ceredigion, gorllewin Cymru, tua diwedd y bumed ganrif. Non oedd enw ei fam ac roedd ei dad, Sant, yn fab i Ceredig, sef Brenin Ceredigion. Dysgodd Dewi am hanes, trefn, a llenyddiaeth yr eglwys pan oedd yn ifanc, a phan oedd yn hŷn daeth yn berson amlwg iawn yn yr Eglwys Geltaidd a sefydlodd fynachlog yn Sir Benfro. Mae'r ardal honno bellach yn ddinas o'r enw Tyddewi, ac mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi yno.



Mae nifer o chwedlau am Dewi Sant, er enghraifft mae'n debyg iddo adfer golwg ei athro Sant Paulinus. Ond efallai mai'r chwedl enwocaf yw'r bregeth ar y bryn. Roedd torf fawr wedi casglu i wrando arno'n pregethu yn Llanddewi Brefi un tro ac yn ôl y chwedl, gosododd Dewi Sant hances ar y llawr a sefyll arni. Yn sydyn, cododd y tir o dan ei draed er mwyn i bawb allu ei weld a'i glywed yn siarad. Yn ystod ei bregeth olaf dywedodd Dewi Sant eiriau sy'n cael eu cofio heddiw, sef 'gwnewch y pethau bychain', ac mae ganddo ei faner ei hun, sydd yn groes aur ar gefndir du.



Mae'n debyg, er nad yw'n sicr, mai ar y 1af o Fawrth yn y flwyddyn 589 y bu farw Dewi Sant ac ers canrifoedd mae Cymry yn dathlu ei fywyd a'i waith ar y diwrnod hwn.

Nid yw Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod o wyliau yng Nghymru - ond mae deiseb ar gael i drïo newid hyn. Ar y cyntaf o Fawrth mae pobl yn gwisgo'r wisg Gymreig neu ddillad sy'n lliw coch - mae crysau rygbi a phêl-droed yn boblogaidd iawn ar y diwrnod hwn! Mae llawer o ysgolion yn cynnal eisteddfod ac mae sawl Noson Lawen, Cawl a Chân a chyngherddau yn cael eu trefnu ledled Cymru. Mae bwyd hefyd yn rhan bwysig o'r dathlu, gyda nifer o bobl yn bwyta cawl (cawl traddodiadol gyda chig a llysiau, neu gawl cennin) gyda bara a chaws, pice'r maen, a bara brith. Ers blynnyddoedd bellach mae gorymdaith liwgar yn cael ei chynnal trwy ddinas Caerdydd, gyda miloedd o bobl yn chwifio baneri, yn dawnsio ac yn canu wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'i gilydd.




Cyngerdd Gŵyl Ddewi



Cynhaliwyd noson Gŵyl Ddewi hwyliog yn Hen Gapel Bethel y Gaiman am 7 o'r gloch ar y cyntaf o Fawrth. Agorwyd y dathlu gyda dawns werin Gymraeg gan griw ifanc, a chafwyd unawdau gan Sylvia Baldor, Billy Hughes, a Cinthia Zamarreño.

Daeth parti ifanc i'r sedd fawr i ganu emyn ifanc dan arweiniad Ariela Gibbon, ac arweiniodd Edith Macdonald y Parti Merched mewn emyn o Ganiedydd yr Ysgol Sul cyn i griw o Ysgol Camwy actio sgets ddifyr oedd wedi'i baratoi gan Caren Jones. Darllenodd Gonzalo Lizama gerdd a gyfansoddwyd gan Ana Chiabrando at y gyfrol 'Juan y Gwanaco', a daeth cynrychiolaeth o'r Ysgol Feithrin i ganu ac adrodd.



Cafwyd gair o groeso i Elliw Baines Roberts, yr athrawes o Gymru, a chroesawyd gwahanol ymwelwyr o Gymru - Morgan Roberts, Verónica a Manon Kiff, John a Glory Roberts - yn ogystal â Ruby a Heinz Schuerman o'r Almaen. Ac wrth gwrs, braf oedd gweld Siôn Dafis yn ôl yn ein plith!



Canodd Manon Kiff o'r llwyfan yn ei gwisg Gymreig, a chafodd y gynulleidfa hefyd gyfle i ganu 'Gwnewch bopeth yn Gymraeg' gydag arddeliad. I gloi'r noson daeth Côr y Gaiman i ganu dwy gân dan arweiniad Marli Pugh, sef 'Pebyll yr Arglwydd' a 'Gwnaeth y Sêr'. Hector Macdonald oedd cyfeilydd y noson.



Gabriel Restucha oedd yn arwain y noson, a chyfieiriodd at Dewi Sant gan gofio ei fod ef, ugain mlynedd yn ôl yn fachgen ifanc oedd newydd ddechrau dysgu Cymraeg, wedi derbyn gwahoddiad i arwain cyngerdd Gŵyl Ddewi gan y Fonhesig Cathrin Williams, a diolchodd iddi am ei chefnogaeth.



Gorffennwyd fel arfer, gyda phawb yn canu 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Cymanfa Ganu

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu go arbennig gan Gymdeithas Dewi Sant yng Nghapel Moriah Trelew brynhawn Sadwrn y 3ydd o Fawrth. Nid dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn unig oedd diben y digwyddiad, ond roedd hefyd yn gyfle i ddathlu pen blwydd y Gymdeithas a sefydlwyd ar y cyntaf o Fawrth 1892. Bu canu brwd yn y capel dan arweiniad Soraya Griffiths, Gladys Williams, Marli Pugh, Edith Macdonald, Catrin Morris, Gladys Thomas a Rebeca White.



Cafwyd anerchiad am Dewi Sant gan Elliw Baines Roberts, casgliad dan ofal Nelia a Lucy Humphreys, gyda David Pacheco a Lis Suárez yn cyfeilio. Roedd Capel Moriah yn llawn, a braf oedd gweld pawb yno.

Cymdeithas Dewi Sant yn 120 oed

Cafodd Cymdeithas Dewi Sant Trelew ei sefydlu yn 1892, a phrif amcanion y pwyllgor cyntaf oedd trefnu arddangosfa amaethyddol da byw, codi cofgolofn yn deyrnged i'r Cymry cyntaf, a chael lle ar gyfer cynnal cyfarfodydd cymunedol a diwylliannol.

'Camwy Fydd' (*Chubut del Futuro*) oedd enw gwreiddiol y gymdeithas, ond erbyn diwedd y flwyddyn 1897 câi ei galw yn 'Cymdeithas Dewi Sant' fel teyrnged i nawddsant Cymru.

Derbyniodd y gymdeithas ddarn o dir gan y Cwmni Rheilffordd er mwyn codi adeilad a gynlluniwyd ar lun Eglwys Dewi Sant yn Sir Benfro, a lle ynddo ar gyfer mil o bobl.

Gosodwyd y garreg sylfaen ar y cyntaf o Fawrth 1910, a chafodd yr adeilad ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn 1913 ar gyfer yr eisteddfod - er nad oedd y gwaith adeiladu wedi cael ei gwblhau eto! Cynhaliwyd yr agoriad swyddogol ar 28 Gorffennaf 1915, gan nodi hanner canrif ers i'r Cymry cyntaf gyrraedd Chubut, a chafodd yr adeilad ei alw yn 'Neuadd Goffa'r Gwladychwyr Cyntaf'.

Er bod yr adeilad wedi newid tipyn ers y dyddiau cynnar, mae'r fframwaith sylfaenol wedi cael ei gadw. Mae Neuadd Dewi Sant wedi bod yn gartref i nifer o wahanol weithgareddau diwylliannol, addysgiadol a chymdeithasol ar hyd y blynyddoedd, ac mae'n ganolfan bwysig a phrysur heddiw. Cynhelir yno ddosbarthiadau Cymraeg, gweithgareddau Menter Patagonia, ymarferion corau a dawnsio gwerin, gweithdai llenyddol, rhagbrofion Eisteddfod y Wladfa, lansiadau llyfrau, a seremonïau Ysgol yr Hendre.

Gant ac ugain o flynyddoedd ers ei sefydlu, mae Cymdeithas Dewi Sant yn parhau'n weithgar iawn ym mywyd diwylliannol yr ardal trwy gydweithio gyda gwahanol sefydliadau a

chymdeithasau, yr eisteddfodau, papur newydd 'Y Drafod', yn ogystal â chynnal cymanfaoedd canu yng nghapel Cymreig y Dyffryn unwaith y mis. Mae'r swyddfa ar agor rhwng 4 a 7 o'r gloch bob prynhawn Llun, Mercher, a Gwener.

Cynhaliwyd swper i ddathlu pen blwydd Cymdeithas Dewi Sant yn 120 oed nos Wener yr 16eg o Fawrth. Roedd tyrfa wedi dod ynghyd yn y neuadd a oedd wedi'i haddurno'n ddeniadol, gyda'r byrddau crwn yn daclus dros ben a'r bwyd o safon uchel. Cafwyd gair o groeso gan y Cadeirydd Mrs Graciela Colosante de Pincirolí, unawdau gan Sylvia Baldor ac Andrés Evans gyda Hector Ariel a Billy Hughes yn cyfeilio. Roedd y cyn-gadeirydd Wendell Davies wedi paratoi 'unipersonal' difyr dros ben hefyd! Croesawyd Elliw Baines Roberts a Pedr Macmullen o Gymru.

Dyma ddywedodd Ricardo Iranni wrth gyhoeddi enw'r person oedd yn cael ei anrhydeddu gan y gymdeithas: "Pan ddywedwyd wrtho fod Cymdeithas Dewi Sant wedi ei ddewis i gael ei anrhydeddu, mae'n siŵr iddo feddwl, 'Roeddwn i'n credu mod i wedi llwyddo i osgoi hyn.'"

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn mwynhau cael ein gwerthfawrogi a'n canmol, ond nid yw'r Gwladfawr hwn yn rhy hoff o enwogrwydd - er bod ei gyfraniad i'n cymuned wedi cael ei gydnabod yn barod gan Brifysgol Patagonia, Cyngor Trelew a Chynulliad Cymru."

Dewi Mefin Jones oedd y person hwnnw a phan gyhoeddwyd ei enw cafwyd cymeradwyaeth wresog gan y gynulleidfa. Aeth y noson yn ei blaen gyda dawnsio a sgwrsio, cyn troi am adref yn ystod oriau mân y bore. Pen Blwydd Llawn!



Profiad Bythgofiadwy

Newydd ddod nôl o'r Hen Wlad ydw i, a WIR dyna beth oedd profiad!!

Cefais fy noddi gan y Cyngor Prydeinig i ddilyn cwrs hyfforddi tiwtoriad yn Mhrifysgol Caerdydd am gyfnod o chwe wythnos. Bues i'n aros gyda'm ffrind Gwilym Roberts yn Rhiwbeina a braf oedd cael ei gwmni yn ystod fy ymweliad â Chymru. Ces i groeso mawr hefyd gan brif diwtor Prifysgol Caerdydd, sef Gareth Kiff (hen swydd Dr. Robert O. Jones) a'i staff o athrawon profiadol. Roedd y gwaith yn cychwyn yn gynnar bob bore dydd Llun ac yn gorffen ar nos Wener, gan adael dydd Sadwrn a dydd Sul yn rhydd i mi grwydro tipyn bach.



Roedd y croeso yn dwymgalon gan yr holl ffrindiau hefyd, ac roeddwn i'n aml yn cael gwahoddiad i ginio neu swper. Sôn am hel fy mol!!! Roedd arna i ofn mynd ar y glorian yn y diwedd ac er bod un yn ystafell molchi Gwilym es i ddim arni, rhag ofn!!

Profiad arall oedd siarad gyda Beti George ar Radio Cymru, ar ei rhaglen "Beti a'i phobl." A sylweddoli pa mor boblogaidd ydy hi, gan bod cymaint o bobl wedi gwrando ar y rhaglen.

Bues i'n lwcus iawn i ymweld â rhai llefydd fel Llambed, Brechfa ac Aberystwyth sydd yn dod ag atgofion melyn i fi. A beth am Gaerdydd?? Lle mae llawer mwy o arwyddion Cymreig o gwmpas y lle (ers i mi fod yno bron i 15 mlynedd yn ôl) a mwy o bobl yn mentro siarad yr hen iaith!!

Dwi'n ddiolchgar iawn i bawb sy wedi estyn croeso i mi a gwneud i mi deimlo'n gartrefol, a rwan dwi wedi dod nôl efo mwy o brofiad ac yn teimlo yn fwy hyderus i wynebu dosbarth ac i weithio dros yr iaith yma ym Mhatagonia.

Juan Davies (Siôn)

Ysgol Sul Bethel

Roedd hi'n amser croesawu tymor newydd yr Ysgol Sul yng Nghapel Bethel Gaiman ar y 4ydd o Fawrth. Braf iawn oedd gweld cymaint o groeso lliwgar oedd yn disgwyl yr holl blant a ddaeth yno. Roedd llwyfan yr Hen Gapel wedi'i addurno gyda baneri ac addurniadau mawr mewn lliwiau o bob math, gyda'r aeloldau hŷn hefyd wedi'u gwisgo mewn dillad lliwgar o liwiau'r enfys. Roedd gan rai ohonyn nhw drwynau cochion! Canai Ariela Gibbon y gitâr a Judith Jones y piano, gyda phawb yn cyd-ganu ac yn gwneud gwahanol symudiadau! Digon o hwyl! Ar ôl y canu a stori gan Gladys Thomas, roedd gêmâu y tu allan i'r plant chwarae mewn tîmau. Yna cafodd bawb de parti bach o dan y 'gazebo' - roedd gwledd o bop, bisgedi, cacennau, a chreision yn disgwyl y plantos!



Elliw Baines Roberts

Holi Juan Davies...

1. Ble cawsoch chi eich geni? *Yn y Gaiman*
2. Ble, sut, a pham ddysgoch chi Gymraeg?
Yng Ngholeg Camwy ar ôl cael gwahoddiad gan Gwilym Roberts, fy athro Cymraeg cyntaf. Ro'n i eisiau cael blas ar yr iaith roedd Nain yn siarad.
3. Beth ydy eich hoff air Cymraeg? *Buddugoliaeth.*
4. Beth ydych chi'n hoffi/ddim yn hoffi ei wneud?
Dwi'n hoffi helpu pobl mewn angen. Ond dwi ddim yn hoffi smwddio dillad!
5. Ers pryd ydych chi'n athro Cymraeg?
Dwi'n dysgu Cymraeg fel ail iaith ers 1996. Do'n i ddim eisiau i'r iaith ddiflannu ac ro'n i'n eisiau rhoi cymaint ag yn bosib yn ôl i'r gymuned, yn enwedig ar ôl i mi fod yng Nghymru yn 1993.
6. Beth ydych chi'n ei hoffi am fod yn athro Cymraeg?
Y peth mwya neis ydy gweld y bobl yn datblygu gyda'r iaith, a'u bod nhw'n dechrau siarad!!
7. Beth ydy eich swydd arferol? *Dwi'n gweithio gyda chynghor y dref ar hyn o bryd, yn un o staff Gabriel Restucha.*
8. Beth yw eich hoff fwyd? *Asado, cig oen wedi'i rostio a salad.*
9. Beth yw eich cas fwyd? *'Bovril' - rhyw stwff du ar gyfer blasu tatws llongwr. Ych!! Mae Gwilym yn hoff iawn ohono.*
10. Beth oedd uchafbwynt eich ymweliad â Chymru?
Mynd i gêm rygbi Cymru v Yr Alban yn Stadiwm y Mileniwm. Cyffrous iawn!
11. Ble mae eich hoff le yn y byd? *Gartref yn y Gaiman.*



Cymru'n ennill y Gamp Lawn

Roedd strydoedd Caerdydd yn fôr o goch ar 17 Mawrth wrth i dîm rygbi Cymru groesawu Ffrainc i Stadiwm y Mileniwm. Hwn oedd y tro cyntaf i'r ddwy wlad wynebu ei gilydd ers i Ffrainc guro Cymru 9 - 8 yn gêm gyn-derfynol Cwpan y Byd yn Seland Newydd fis Medi diwethaf, a byddai buddugoliaeth yn golygu mai Cymru fyddai pencampwyr y Chwe Gwlad.

Roedd yn rhaid aros 12 munud am bwyntiau cynta'r gêm, pan sgoriodd Ffrainc gic gosb. Ond tarodd Cymru yn ôl wrth i Alex Cuthbert sgorio unig gais y gêm, a Leigh Halfpenny yn trosi. Er i'r ddau dîm gael ciciau cosb llwyddiannus yn ystod gweddill y gêm, ni lwyddodd Ffrainc i gau'r bwlch a'r sgôr ar ôl 80 munud oedd Cymru 16-9 Ffrainc.



Cymru oedd yr unig wlad i ennill pob gêm yn y bencampwriaeth, felly roedden nhw hefyd yn cipio gwobr y Gamp Lawn. Hon oedd y drydedd gwaith i'r Cymry ennill y wobwr honno mewn wyth tymor, a'r ail gyda'r hyfforddwr Warren Gatland. Ffrwydrodd Stadiwm y Mileniwm wrth i gapten Cymru, Sam Warburton godi'r tlws, gyda'r dorf yn cymeradwyo a'r tân gwyllt yn lliwio'r awyr! Cafodd Dan Lydiate, blaenasgellwr Cymru, ei ddewis yn chwaraewr gorau'r Chwe Gwlad.

Mae Undeb Rygbi Cymru wedi cyhoeddi'r pedair gêm yng Nghyfres yr Hydref eleni. Bydd Cymru'n herio'r Ariannin yn Stadiwm y Mileniwm ar y 10fed o Dachwedd.



Y Wisg Gymreig

Mae'r wisg Gymreig ry'n ni'n gyfarwydd â hi heddiw yn seiliedig ar ddillad roedd merched yn eu gwisgo yng nghefn gwlad Cymru yn ystod y 19eg ganrif. Er bod y math yma o wisg - sgert wlanan, ffedog, cot frethyn, a siôl - yn gyffredin yng Nghymru yn yr 17eg ganrif, fe'i defnyddiwyd yn ystod y 19eg ganrif er mwyn rhoi hwb i'r diwylliant a'r hunaniaeth Gymreig.

Dynes bwysig yn hanes y wisg draddodiadol Gymreig oedd yr Arglwyddes Llanofor. Yn ystod degawdau cyntaf y 19eg ganrif dechreuodd hi ac eraill ddangos diddordeb yn y dillad a wisgai'r merched yng nghefn gwlad Cymru, a bu'n annog merched i wisgo'r dillad hyn yn eu cartrefi ac mewn eisteddfodau. Roedd hi hefyd eisiau hyrwyddo diwydiant gwlân Cymru, a oedd yn dirywio ar y pryd, a rhoddai bwyslais mawr ar wisgo gwlanan yn hytrach na chotwm tenau. Felly aeth hi ac eraill ati i gynhyrchu eu gwlanan eu hunain yn y melinau gwlân oedd ganddyn nhw ar eu hystadau, ac roedd disgwyl i weithwyr ystâd Arglwyddes Llanofor, y tenantiaid, a'r gwesteion wisgo'r wisg hon bob amser.

Dydy hi ddim yn glir pryd yn union y daeth hi'n boblogaidd i ferched Cymru wisgo'r het dal ddu, ond mae'n debyg iddo ddod yn rhan o'r wisg Gymreig yn ystod hanner cyntaf y 19eg ganrif. Roedd yr hetiau'n debyg iawn i'r rhai fyddai dynion yn eu gwisgo yn y cyfnod hwnnw, ac roedd eu siâp yn amrywio o un lle i'r llall yng Nghymru.

Daeth y wisg Gymreig yn boblogaidd iawn oherwydd y diwydiant ymwelwyr yng Nghymru hefyd. Ond erbyn heddiw dim ond ar achlysuron arbennig neu wrth ddawnsio gwerin fydd merched yn wisgo'r wisg draddodiadol Gymreig, yn bennaf oll ar Ddydd Gŵyl Dewi.



'Juan y Gwanaco a cherddi eraill'

Cofiwch am y gyfrol o farddoniaeth a lansiwyd yn Eisteddfod y Wladfa 2011. Mae 'Juan y Gwanaco a cherddi eraill' yn cynnwys dros hanner cant o gerddi sydd wedi eu hanelu yn bennaf at ddarllenwyr ifanc y Wladfa (ac ambell un ifanc ei natur!) yn ogystal â darllenwyr yn yr Hen Wlad.



Ceir cyfraniadau gan feirdd o'r Wladfa, megis Gweneira Davies de Quevedo, Gwenni Evans ac Ana Chiabrando, yn ogystal â beirdd o Gymru sy'n gyfarwydd â Phatagonia a'i phobl. Mae'r casgliad yn addas i ddysgwyr ac i siaradwyr Cymraeg eu darllen a'u hadrodd - a'u mwynhau!

Mae'r gyfrol yn costio \$30 ac ar werth yn Amgueddfa'r Gaiman, siop lyfrau 'Un Amor Diferente', neu gan Eysyllt Roberts a Lois Dafydd.

Brysiwch, dim ond nifer cyfyngedig ohoni sydd ar ôl!

Cornel y Dysgwyr

Rincon de aprenda Galés

Y Lliwiau / Los Colores

Pa un ydy dy hoff liw?

Fy hoff liw ydy...

glas (glas golau)

gwyrdd

melyn

coch

pinc

oren

porffor

brown

du

gwyn

amryliw

enfys

Cuál es tu color favorito?

Mi color favorito es...

azul (celeste)

verde

amarillo

rojo

rosa

naranja

violeta

marrón

negro

blanco

multicolor

un arco iris



**Diolch yn fawr i
gyfranwyr a noddwyr y
rhifyn hwn...**



PLAS HEDD

Complejo Turístico

**Fflatiau moethus
a heddychlon
ger môr Madryn.**

(02965)471357


Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

Plas-y-Coed

**Tŷ Te hynaf
Gaiman.**

**Croeso Cymreig a
the traddodiadol ers 1944.**

Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.




TeithiauTango

Dewch i weld y Wladfa



www.teithiautango.co.uk

**Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n
arbenigo yn y Wladfa.**



**Nwyddau ar
gyfer ffermwyr
yn Nhrelew**

camposur

SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.

Gwalia Lân

**Bwyty safonol
gydag awyrgylch
Gymreig a chroeso
cynnes.**



**Cornel Heol Eugenio Tello
a Heol Michael D. Jones, Gaiman.**

Cacen gaws pice'r maen

Cynhwysion y pice: 225g blawd plaen
110g menyn
1 ŵy
llond llaw o swltanas
185g siwgr
pinsiad o halen

Cynhwysion y gacen: 12-14 bisgïen e.e. 'Manon 50g menyn
½ llwy de o sinamon ½ llwy o de o nytmeg
2 llwy fwrdd blawd plaen 600g caws hufennog
3 diferyn o flas fanila 175g siwgr
2 wy 1 melynwy
142g iogwrt naturiol

Pice'r maen:

Rhwbiwch y menyn i'r blawd i wneud briwsion bara. Ychwanegwch y siwgr, swltanas, ac yna'r ŵy a chymysgu'r cyfan i wneud pêl o does.

Rhowliwch y toes (nid yn rhy denau) a thorri cylchoedd ohono. Taenwch fenyn ar faen, neu badell ffrio, a'i chynhesu. Pobwch y pice am ryw 2-3 munud bob ochr, neu nes eu bod yn frown golau.



Y gacen gaws:

Malwch y bisgedi'n fân. Toddwch y menyn mewn sosban fawr, ac ychwanegwch y bisgedi, y nytmeg a'r sinamon ato. Cymysgwch y cyfan yn dda. Rhowch y gymysgedd mewn tun teisen y byddech yn ei ddefnyddio ar gyfer tarten, gyda gwaelod rhydd iddo, gan wasgu'r gymysgedd i lawr yn dynn. Rhowch yn y ffwrn (marc nwy 4) am 5-10 munud, ac yna'i adael i oeri. Gorchuddiwch y gymysgedd bisgedi gyda rhai o'r pice.

Chwisgiwch y caws hufennog, y blawd, y siwgr, y fanila, yr wyau, y melynwy a'r iogwrt naturiol mewn bowlen nes bod y cyfan wedi'i gymysgu'n dda.


Torrwch rhyw 5 o'r pice yn ddarnau mawr a'u cymysgu'n ofalus i'r gymysgedd. Arllwyswch y cyfan i'r tun sydd gyda'r bisgedi a'r pice ynddo.



Pobwch yn y popty am 35-40 munud, neu nes bod y gacen yn siglo ychydig bach yn y canol - ond yn aros yn gyfan. Os oes pice'r maen yn weddill, rhowch nhw ar dop y gacen.

Gadewch y gacen i oeri yn tun. Gweinwch hi mewn tafelli yn oer neu yn gynnes.

Croesair Dillad



AR DRAWS

1. MAE;N CAEL EI DDEFNYDDIO I GAU COT(5)
3. GWISG DRADDODIADOL YR ALBAN (4)
6. COT DAFAD (5)
8. ESGIDIAU TRADDODIADOL YN YR ARIANNIN (10)
9. EI GWISGO O AMGYLCH Y GWDDF I GADW'N GYNNES (5)
12. RY'N NI'N GWISGO'R RHAIN AR EIN TRAED (8)
14. MAE AELODAU GORSEDD Y WLADFA YN GWISGO UN GLAS O'R RHAIN (6)
15. HET TRADDODIADOL YN FFRAIN (5)
16. MASCARA (4)

I LAWR

1. TRYWSUS ARCHENTAIDD (9)
2. MAEN NHW'N CADW'R DWYLO'N GYNNES (5)
3. MAE BRENIN YN EI GWISGO AR EI BEN (5)
4. BYDDAI MERCH GYMREIG YN EI GWISGO AR EI HYSGWYDDAU (4)
5. PANTALONES (7)
7. O BA WLAD DAW'R 'KIMONO'? (6)
10. MAE COGYDD YN EI GWISGO (5)
11. LLIW CRYSAU TÎM RYGBI SELAND NEWYDD (2)
13. MAE JÎNS WEDI'U GWNEUD O'R DEFNYDD YMA (5)

Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!

Geirfa'r Mis

cyfarwydd

nawddsant

mynachlog

chwedl(au)

torf/tyrfa

adfer golwg

gorymdaith

amcan(ion)

arddangosfa

cofgofofn

fframwaith

gweithgar

gwneud y pethau bychain

conocido

santo patrón

monasterio

leyenda(s)

multitud

restaurar la vista

desfile

objetivo(s)

exposición

monumento

estructura

trabajador

Vocabulario del Mes

clorian

deiseb

buddugoliaeth

pencampwr

Camp Lawn

cefn gwlad

hwb

annog

hyrwyddo

diwydiant

dirywio

hunaniaeth

hacer las cosas pequeñas

balanza

petición

victoria

campeón

Grand Slam

campo

impulsar

animar

promover

industria


deteriorar

identidad

Cornel y Plant

Lliwiwch Dewi Sant

Anfonwch eich lluniau at Lois Dafydd
erbyn 25 Ebrill 2012 am gyfle i ennill
gwobr!



Chwilair Gŵyl Ddewi

g	h	b	n	p	r	d	f	c	y	r	th	c	Dewi Sant
ff	d	e	w	i	s	a	n	t	d	s	w	e	Cymru
e	l	h	i	c	f	e	p	w	c	f	i	n	Cawl
s	f	m	g	e	ll	r	s	m	p	h	m	h	Twmpath
c	rh	t	d	b	h	b	g	p	g	o	ch	i	Pice bach
y	ll	e	y	a	f	p	c	a	w	l	j	n	Baner
m	y	n	a	ch	d	s	m	th	u	m	p	e	Cenhinen
r	j	m	p	g	t	f	h	r	d	w	h	n	Mynach
u	ng	c	b	a	n	e	r	s	e	f	g	l	

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi,
cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 0280 386 198